# Cenn@d

TACHWEDD 19 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 247


## Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi – rhoi llais i bob eglwys




Yn ddiweddar, cyhoeddwyd adroddiad cynhwysfawr a gwerthfawr gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi (National Churches Trust), sy'n gweithio i gefnogi capeli ac eglwysi yn eu gwaith o gynnal eu hadeiladau ar draws y Deyrnas Unedig. Rydym yn hynod o falch o'u gwaith a gellir dod o hyd i'r adroddiad cyfan yn Gymraeg o ddilyn y ddolen ar waelod yr erthygl hon. Ceir hefyd gryn sylw i eglwysi yng Nghymru ynddo, gyda 15% ohonyn nhw yn addoli drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhoddir yma ar gyfer darllenwyr *Cenn@d*, y Crynodeb Gweithredol a'r Casgliad a geir ar y diwedd. Mynnwch eich copi a'i ddarllen!

Mae Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi yn cynnwys astudiaeth gynhwysfawr sy'n archwilio adeiladau ar draws gwledydd ac enwadau'r Deyrnas Unedig, o eglwysi canoloesol a chapeli Anghydffurfiol i blwyfi Catholig a mannau Pentecostaidd bywiog. Yn debyg o ran maint a chwmpas i Arolwg 2010, mae'n dangos nad cartrefi ysbrydol yn unig yw eglwysi, ond partneriaid allweddol mewn gofal cymdeithasol, llesiant a'r bywyd diwylliannol. Maent yn llefydd o gymdeithas sanctaidd lle mae banciau bwyd, grwpiau ieuenctid, corau, mannau cynnes, cwnsela a digwyddiadau cymunedol yn tyfu ochr yn ochr.

Maent hefyd yn cynnwys trysorau arbennig fel gwydr lliw, gwaith coed, cofebion a chofnodion sy'n uno cenedlaethau ac yn cadw hunaniaeth leol. Yn aml, yr eglwys neu'r capel yw'r adeilad hynaf ac enwocaf yn y pentref, y dref neu'r ddinas. Gellir eu hystyried ymhlith yr enghreifftiau mwyaf gwerthfawr o'n treftadaeth ac asedau cymunedol pwysicaf y Deyrnas Unedig.

Mae'r arolwg hefyd yn dangos bod capeli ac eglwysi'n gweithio'n galed i reoli eu hadeiladau. Maent yn addasu eu cynlluniau, yn gwneud eu hadeiladau yn fwy cynaliadwy, yn ychwanegu toiledau, yn gosod systemau gwresogi ac yn creu mannau digidol a hygyrch newydd. Yn aml gwirfoddolwyr sy'n gwneud y gwaith hwn, ac yn talu amdano, i ateb yr anghenion lleol. Nid cynnal a chadw yn unig yw gofalu am eglwysi; mae'n golygu gofalu am y gorffennol, cefnogi'r presennol a chadw'r dyfodol yn ddiogel i genedlaethau i ddod.

Dau draean yn unig o'r rhai a ymatebodd sy'n hyderus y bydd eu heglwys neu eu capel yn dal ar agor mewn pum mlynedd. Mae'r hyder hyd yn oed yn wannach mewn ardaloedd gwledig; yno, ychydig dros hanner yr ymatebwyr sy'n teimlo'n sicr o hyn. Mae amser gwirfoddolwyr yn brin, mae arian yn parhau i fod yn rhwystr, ac mae problemau cynnal a chadw yn troi'n argyfyngau costus. Mae'r pwysau ar wirfoddolwyr, cynulleidfaoedd a chlerigwyr

### Canfyddiadau Allweddol

**Hanesyddol ond bywiog**
Mae 64% o'r eglwysi a arolygwyd yn adeiladau cyn y 20fed ganrif, gyda 90% wedi'u hadeiladu'n bwrpasol ar gyfer addoli. Mae ychydig dros 8 o bob 10 yn dal i gynnal gwasanaethau o leiaf unwaith yr wythnos, neu'n amlach. Maent yn parhau'n ffyddlon i'w pwrpas gwreiddiol tra'n addasu i anghenion modern.

**Mynediad ac ar agor**
Mae 58% o eglwysi ar agor i'r cyhoedd y tu hwnt i wasanaethau, ac mae 42% ar agor bob dydd. Mae'r lefel hon o fynediad yr un peth mewn ardaloedd trefol a gwledig.

**Canolfannau cymunedol gyda galw cryf amdanynt**
Mae mwy na hanner yr holl eglwysi yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill o leiaf unwaith yr wythnos, sy'n cadarnhau eu rôl fel canolfannau sifig. Mae 56% o eglwysi yn dosbarthu bwyd, ac mae 85% eisiau ehangu cefnogaeth gymunedol pe bai ganddynt fwy o adnoddau.

**Help Llaw**
Mae eglwysi yn glir ynghylch pa adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud mwy ac i ateb anghenion eu cymuned leol. Mae 70% yn dweud bod angen mwy o wirfoddolwyr, mae 62% yn dweud cymorth ariannol ac mae 39% yn dweud cyfleusterau gwell.

**Hyder am y dyfodol**
Mae 1 o bob 20 eglwys yn dweud eu bod yn teimlo na fyddant 'yn sicr' neu 'yn debygol' o gael eu defnyddio fel man addoli mewn dim ond 5 mlynedd. Mae bron i ddau-draean (64%) yn dweud 'yn sicr' ac mae 27% yn dweud 'yn debygol'.

**Llif bywyd gwirfoddolwyr**
Mae 83% o eglwysi yn dweud bod corff gweithgar o wirfoddolwyr yn ganolog i reolaeth lwyddiannus eu hadeiladau. Mae diffyg amser gwirfoddolwyr hefyd yn atal eglwysi rhag gwneud mwy yn eu cymuned, gyda'r ffactor hwn yn codi'n sydyn o 33% yn 2010 i 45% yn 2025.

**Straen ariannol lleol**
Mae cynulleidfaoedd a phobl leol yn parhau i fod yn sail i'r gefnogaeth elusennol i eglwysi. Mae 77% o eglwysi yn dibynnu ar roddion lleol ac mae 54% yn dibynnu ar godi arian yn lleol. Mae mwy na hanner yr eglwysi (65%) wedi talu rhwng 76–100% o'r costau atgyweirio o'u cronfeydd eu hunain yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

**Cyfleusterau modern**
Mae eglwysi wedi gwneud cynnydd mawr ers ein Arolwg 2010, gyda 82% bellach yn cynnig mynedfeydd hygyrch llawn (63% yn 2010), 73% yn darparu toiledau hygyrch, a 87% wedi'u cysylltu â phrif gyflenwad dŵr (66% yn 2010). Hefyd mae 58% bellach â Wifi.

**Heriau gyda chyflwr adeiladau**
Mae atgyweirio toeau, draeniau a gwresogi ymhlith yr anghenion mwyaf brys sy'n wynebu adeiladau eglwysig y DU, gyda 1 o bob 10 eglwys yn nodi'r rhain fel pethau i'w hatgyweirio ar frys yn y 12 mis nesaf. Mae nifer yr eglwysi sydd â tho mewn cyflwr da wedi gostwng o 70% yn 2010 i 61% yn 2025.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Ymweliad Cytûn â'r Fatican
Tudalen 3

Hanes yr Achos – Peniel, Foelgastell (1917–2025)
Tudalen 4

John Henry Newton (1725–1807)
Tudalen 8

## *Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi – rhoi llais i bob eglwys*

*(parhad o dudalen 2)*



Eglwys Plwyf Killin & Ardeonaig Killin, Swydd Perth (Rhestriad Gradd B yn yr Alban). O flaen yr eglwys mae cofeb i'r Parch. James Stewart (1701-89), gweinidog Killin, a gyfieithodd y Testament Newydd gyntaf i Aeleg yr Alban (1767).

yn enfawr, gan gynnwys codi arian, llywodraethu, ysgrifennu ceisiadau a gofalu am yr adeilad o ddydd i ddydd.

Ymhell o fod ar yr ymylon, mae adeiladau eglwysig yn parhau i fod wrth galon bywyd lleol. Ond am ba hyd? Heb weithredu brys, rydym mewn perygl o golli adeiladau, ein treftadaeth a chefnogaeth y gymuned – pethau na ellir eu hadfer yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r hyn sydd mewn perygl, gan nodi'r manteision y mae eglwysi'n eu rhoi i'r gymuned a'r budd i'n treftadaeth, y bygythiadau sy'n eu hwynebu, a'r angen brys am gefnogaeth. Er bod y capeli a'r eglwysi'n gwneud popeth o fewn eu gallu, heb fuddsoddiad a phartneriaethau cydlynus, mae'r adnodd enfawr hwn mewn perygl o ddadfeilio o'n blaenau.

Ond mae Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi hefyd yn cario neges o obaith. Mae miloedd o eglwysi a chapeli wedi dod at ei gilydd i ddweud wrthym am eu hymrwymiad eithriadol, yn ogystal â'u pryderon am y dyfodol. Pan fydd y llywodraeth a chyllidwyr yn camu i mewn, rydym yn gweld bod y canlyniadau'n drawsnewidiol. Os ydym yn barod i wynebu'r her, gall eglwysi barhau i fod wrth galon cymunedau fel mannau sy'n rhoi gwerth ar berthyn, gwydnwch a gofal cymdeithasol. Os ydym



Capel Bethesda, yr Wyddgrug, Rhestriad Gradd II*

yn methu gwneud hynny, rydym mewn perygl o golli nid yn unig frics a morter ond hefyd y gwerth amhrisiadwy y mae eglwysi a chapeli'n ei roi bob dydd.

**Casgliad: Galwad i Weithredu**

Mae eglwysi a chapeli ymhlith cyfoeth cymunedol mwyaf gwerthfawr a gwydn y Deyrnas Unedig. Maent yn rhwydi diogelwch arbennig, ac yn darparu gwasanaethau na all unrhyw rwydwaith cenedlaethol arall eu cynnig. O fewn eu muriau, maent hefyd yn cadw rhai o drysorau diwylliannol mwyaf y genedl, o wydr lliw i gofebau sy'n gwreiddio straeon lleol o fewn ein treftadaeth.

Mae eglwysi hefyd ymhlith y lleoedd gorau i fuddsoddi ynddynt yn y sector gwirfoddol. Maent eisoes yn harneisio egni ac ewyllys da rhyfeddol, a chyda chefnogaeth strwythuredig gallent gynyddu'r seilwaith hwn ymhellach gan gynnig llwybrau i ddatblygu sgiliau, arweinyddiaeth a chefnogaeth gymunedol sy'n fuddiol nid yn unig i eglwysi ond i'r gymdeithas gyfan yn ehangach.

Ond dengys Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi yn glir iawn fod yr etifeddiaeth hon ar dir sigledig. Gwelir bod gwirfoddolwyr dan straen; mae cyllid yn dal i fod yn rhwystr, ac yn rhy aml mae cymunedau'n gorfod ymateb i argyfyngau yn hytrach na chanolbwyntio ar y dyfodol. Dim ond y rhai sy'n goroesi a'r rhai yr oedd gan wirfoddolwyr amser i'w gwblhau a gafodd eu cynnwys yn yr Arolwg. Adroddodd nifer sylweddol am ddirywiad yng nghyflwr eu hadeilad, am ansicrwydd ynghylch y pum mlynedd nesaf, a'r pryder y bydd y baich yn rhy drwm heb gymorth.

**Heb fwy o gymorth, ni all hyd yn oed yr eglwysi a'r capeli mwyaf ymroddedig gario'r baich ar eu pennau eu hunain.**

**Dyma foment allweddol**

Mae'r Arolwg yn dangos bod eglwysi am wneud mwy i ehangu eu rhaglenni diwylliannol, dyfnhau gofal cymdeithasol, a chryfhau eu camau amgylcheddol. Gallai buddsoddi mewn adeiladau eglwysig helpu i drawsnewid cymunedau ledled y Deyrnas Unedig, gan adeiladu ar y gwaith y maent eisoes yn ei wneud i gefnogi pobl a'r seilwaith lleol. Ond, heb ymyrraeth, mae'r risgiau'n uchel. Os bydd eglwysi a chapeli'n cau, bydd yr effaith yn cael ei theimlo'n eang: colli treftadaeth, colli gofal cymdeithasol, a cholli lleoedd ar gyfer addoli a pherthyn. Byddai hyn nid yn unig yn arwydd o esgeuluso ein hetifeddiaeth ddiwylliannol, ond hefyd yn fethiant i ofalu am gymunedau ar eu mwyaf bregus.

Mae angen ymateb cenedlaethol, a hwnnw'n cyfateb i'r egni sydd gan eglwysi i gadw eu hadeiladau ar agor, yn ogystal â gwir gefnogaeth. Rhaid i enwadau gryfhau eu cefnogaeth, rhaid i sefydliadau sy'n gwarchod ein treftadaeth sianelu eu harbenigedd a'u heiriolaeth i'r mannau cywir, a rhaid i awdurdodau lleol chwarae eu rhan. Uwchlaw popeth, mae'n rhaid i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gamu ymlaen i sefydlu fframwaith cyllido strategol a chyson sy'n hawdd ei gyrchu ac ar gael i bob eglwys neu gapel, waeth beth fo'i faint na'i enwad.

**Mae'r dewis yn glir. Mae'r adeiladau hyn, a'r cymunedau y maent yn eu cynnal, yn rhan o'n hetifeddiaeth a'n cyfrifoldeb cyffredin. Nawr yw'r adeg i weithredu.**

Dilynwch y ddolen hon i lawrlwytho'r adroddiad yn llawn:
Arolwg Cenedlaethol yr Eglwysi: rhoi llais i bob eglwys | National Churches Trust



# Ymweliad Cytûn â'r Fatican

Bu wythnos gyntaf Tachwedd yn un arwyddocaol yn hanes eciwmeniaeth a chysylltiadau Ewropeaidd, a chafodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn, y fraint o gael bod yng nghanol y bwrlwm. Yn ystod y daith cafwyd seremoni arwyddo'r *Charta Ecumenica* newydd a hefyd y cyfle i gyfarfod a sgwrsio â'r Pab Leo. Mae'r *Charta Ecumenica* yn ddogfen sy'n cynnig fframwaith ar gyfer cydweithrediad Cristnogol rhwng eglwysi Ewrop. Mae'n symbol o undod, ond hefyd yn dystiolaeth o'r daith faith tuag at ddealltwriaeth a pharch rhwng traddodiadau Protestannaidd, Catholig ac Uniongred.

**Ystyr a phwysigrwydd y *Charta Ecumenica***

Llofnodwyd y *Charta Ecumenica* gyntaf yn 2001 fel cytundeb rhwng eglwysi Cristnogol Ewrop i feithrin cyfeillgarwch, cydweithrediad, a chydraddoldeb. Mae'r ddogfen yn cynnig meysydd y dylai Cristnogion o wahanol draddodiadau gydweithio â'i gilydd yn eu cylch – meysydd megis cenhadaeth, cyfiawnder cymdeithasol, newid hinsawdd, ffoaduriaid a phobl ifanc. Mae'r fersiwn diwygiedig hefyd yn cynnwys meysydd megis moesoldeb ddigidol, dialog rhyng-ffydd ac ymatebion Cristnogaeth i wleidyddiaeth eithafol.

Dywedodd Cynan ar ôl y seremoni, "Nid diwedd siwrnai yw'r *Charta* newydd, ond yn hytrach mae'n cynnig dechrau siwrnai newydd, lle y gall eglwysi Ewrop gyd-dystio i gariad Crist, adeiladu pontydd newydd ac wynebu heriau a chyfleon newydd yn obeithiol, yn enw Crist."

**Ecwimeniaeth yn y 21ain ganrif: cyfleoedd newydd**

Mae'r digwyddiad hwn yn adlewyrchu newid ehangach mewn perthnasoedd Cristnogol rhyngwladol. Mae'r eglwysi Cristnogol gwahanol ledled Ewrop bellach yn cydweithio ar brosiectau cenhadol, cymdeithasol, addysgol ac amgylcheddol. Yn y byd sydd yn aml yn cael ei rannu gan wleidyddiaeth, hiliaeth a diffyg goddefgarwch, mae'r ysbryd eciwmenaidd newydd yn dyst i obaith – ac yn ein hatgoffa mai gwell yw codi pontydd na chodi muriau.

Mae'r *Charta* yn rhoi cyfle felly i eglwysi Ewrop ymateb. Anogaeth y Pab oedd ar i Eglwysi Ewrop weld y *Charta* fel cychwyn taith, yn hytrach na phenllanw taith. Mae'n gyfle i gyd-gerdded, i wrando ac i ddirnad gyda'n gilydd er mwyn i'n cenhadaeth fod yn unedig ac effeithiol yn yr oes sydd ohoni. Fel y dywedodd y Pab, mae'n gyfle i'r eglwysi gyhoeddi i holl bobl Ewrop mai Iesu Grist yw ein hunig obaith, gan mai ef yw'r llwybr yr ydym yn ei dilyn, ac ef yw penllanw ein taith ysbrydol.

I ddarllen y *Charta Ecumenica*, ewch i: https://ceceurope.org/storage/app/media/2025-news/A4-Charta-2-guideline-online.pdf

*Cynan Llwyd*
*Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru*

# Cyfarfodydd Hanner Blynyddol 2025

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Hanner Blynyddol Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion ddydd Mercher, 22 Hydref, yng Nghapel Providence, Cwm-du. Pentref yng nghanol cefn gwlad Sir Gâr yw Cwm-du, a chafwyd yno groeso cynnes wrth iddynt groesawu'r cyfarfodydd gan mai Ysgrifennydd Providence, Dawn Richards, yw Llywydd y Gymanfa.

Croesawyd pawb gan weinidog yr eglwys, y Parch. Mary Davies, a'r Parch. John Treharne, Llwynhendy, cyn-lywydd y Gymanfa, a arweiniodd y defosiwn. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau am absenoldeb sawl un o'r ffyddloniaid am amrywiol resymau a thrafodwyd materion yn ymwneud â'r Gymanfa, yn cynnwys diweddariad gan Dr Christian Tucker-Williams, Undeb Bedyddwyr Cymru, ar y datblygiadau sydd ar waith ar hyn o bryd i droi'r Cymanfaoedd yn gyrff elusennol rhanbarthol.

Y siaradwr gwadd oedd Paul Kennedy sy'n rheolwr Cefnogi, elusen sydd wedi ei sefydlu yn Rhydaman ac yn gwasanaethu fel banc bwyd a chanolfan i gefnogi rhai sy'n dioddef o dlodi a sefyllfaoedd anodd eraill. Roedd yn agoriad llygad gwybod bod cymaint o gefnogaeth ar gael, ond eto tristwch y sefyllfa fod angen y math yma o sefydliad yn ein gwlad – ond diolch amdanynt. Diolchwyd yn gynnes i Paul am ei anerchiad gafaelgar, a da oedd gallu cyfrannu casgliad y dydd tuag at y gwaith pwysig y mae Cefnogi yn ei wneud yn estyn llaw i'r rhai sydd mewn angen.

Yn dilyn cyfle i gymdeithasu o gwmpas y byrddau, cynhaliwyd yr Oedfa Bregeth dan lywyddiaeth Dawn Richards. Gweinidog




Dawn Richards a Paul Kennedy

Eglwys Ebeneser, Rhydaman, y Parch. John Talfryn Jones, oedd y pregethwr gwadd â'r rhannau arweiniol yng ngofal ei briod, Einir Jones. Cafwyd pregeth rymus ac amserol ganddo i gloi'r cyfarfodydd ac edrychwn ymlaen at gael teithio'n ôl i'r ardal fis Mai nesaf ar gyfer y Cyfarfodydd Blynyddol yng Nghapel Ebeneser, Llandeilo.

*Rhidian Evans*

# Hanes yr Achos – Peniel, Foelgastell (1917–2025)

A Jacob a alwodd enw y fan Peniel: oblegid gwelais Dduw wyneb yn wyneb, a dihangodd fy einioes (Genesis 32:30)




Yn dilyn diwygiad 1904–1905, roedd pobl Foelgastell yn cerdded y 2/3 milltir i Lanlluan, ger Maes-y-bont, ac yn 1909 penderfynon nhw adeiladu ysgoldy yn Foelgastell.

Erbyn 1917, teimlai'r rhai oedd yn mynychu'r ysgoldy hwn y gallent sefydlu eglwys lawn ar y safle, ac ar y Sul cyntaf yn Ebrill 1917 sefydlwyd yr eglwys yn swyddogol yn ôl ffurf a defod y Methodistiaid Calfinaidd.

Yn 1944 daeth y Parchg H. H. Williams yn weinidog yma, ac roedd e'n flaenllaw yn y diwygiad a ddigwyddodd yn yr ardal yn y 50au cynnar. Roedd e'n cynnal cyfarfodydd tu allan yn yr awyr agored, ac roedd pobl nad oedd yn adnabod yr Arglwydd Iesu cyn hynny yn dod i'w adnabod. Yn 1952 cafwyd Ymgyrch Efengylaidd dros bedwar diwrnod, yn dechrau ar y Sul ar ôl oedfa'r nos, gan gofio fod ysgol Sul yn y bore ac oedfa yn y prynhawn hefyd.

Gallwch ddarllen mwy am yr ymgyrch hon ym mhregeth y Parchg Gareth Davies i Eglwys Efengylaidd yr Heath, Caerdydd, yn 2006: [http://www.heath-church.org/documents/Revival0202.pdf](http://www.heath-church.org/documents/Revival0202.pdf).

Wedi'r diwygiad yma, roedd Peniel ar y brig. Trwy'r 50au hyd nes y 90au roeddem yn elwa o bregethu arbennig gan siaradwyr ysbrydoledig iawn. Fe aeth y rhai oedd yn ifanc, ac a gafodd dröedigaeth yma yn y 50au, ymlaen i fod yn arweinwyr a gweinidogion eu hunain.



CYNHELIR
YMGYRCH
EFENGYLAIDD ym
MHENIEL M.C. FOELGASTELL,
MAWRTH 30 HYD EBRILL 2, 1952

Nos Saboth Mawrth 30ain am 8 o'r gloch ar ol yr Oedfa arferol
Annerchir gan nifer o Ieuenctid Testun:-
"BETH A DYBYGWCH CHWI AM GRIST."
Nos Lun Mawrth 31ain am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y
Parch. J. Elwyn Davies, B.A.
Blaenau Ffestiniog.
Nos Fawrth Ebrill 1af am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch.
I. D. E. Thomas, B.A., B.D.,
Glanaman.
Nos Fercher Ebrill 2, am 7 o'r gloch. Gwasanaethir gan
Mr. Eifion Evans, B.Pharm.
Darlithydd mewn Coleg yn Glasgow.

Cynhelir Oedfa Weddi bob bore am 10.30.
Bob Prynhawn bydd Gwasanaethau yn yr Awyr Agored.
Dowch yn Llu i'r Ymgyrch Hon!

Roedd yr ardal yn gymuned lofaol, ac roedd y rhan fwyaf yn gadael yr ysgol heb gymwysterau uwch, os o gwbl, ond roedd eu gwybodaeth am y Beibl yn aruthrol. Mae'r ddysg a dderbyniwyd yma dros y blynyddoedd bob amser wedi'i gwreiddio'n gadarn yn yr Efengyl, gyda'r Ysbryd Glân yn amlwg yn symud ym mhawb oedd yn arwain y gwaith.

Roedd myfyrwyr y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth yn ymweld yn aml, ac roeddent yn cael lletygarwch hael. Er nad oedd y mwyafrif erioed wedi bod ymhellach nag Abertawe, roedd meysydd cenhadaeth y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd-ddwyrain India yn agos i'w calonnau. Roedd awydd cryf i rannu Efengyl eu Hiachawdwr yn lleol, yng Nghymru a thrwy'r byd, a gwnaethon nhw'r hyn a allent i sicrhau hyn.

Erbyn diwedd yr 80au a'r 90au, roedd pob pwll glo yng Nghwm Gwendraeth wedi cau a'r tirwedd yn anodd ei adnabod o'i gymharu â'r un yn gynnar yn y 1900au.

Heddi, mae dwy neu dair cenhedlaeth o bobl sydd heb fynychu capel o gwbwl, a ddim hyd yn oed wedi clywed yr un hanes am yr Iesu, heblaw yr ychydig a ddysgan nhw mewn gwers addysg grefyddol. Mae'r tirwedd yn hollol wahanol; mae anghenion y gymuned yn wahanol, ac mae angen eglwys hollol wahanol ei gwedd.

Yn y Testament Newydd, roedd Paul yn ysgrifennu at yr eglwysi yng Nghorinth, Rhufain, Galatia, Effesus, Philipi, ac oni bai am yr eglwysi yma, fyddai'r un ohonom ni yn gwybod am Grist heddiw. Ond dyw'r eglwysi hynny ddim yn bodoli heddi. Mae'r eglwysi sydd yn Rhufain, Groeg a Thwrci heddi yn gwasanaethu'r gymuned fel mae hi heddi.

Nid adeilad yw eglwys, a dyw Duw ddim yn gyfyngedig i eglwys nac i enwad. Mae Duw yn codi pan fo angen, ac yn tynnu i lawr pan fo angen hefyd.

Pan ydych chi'n ymweld â maes awyr, ry'ch chi'n gweld awyrennau ar y rhedfa yn paratoi i esgyn, a rhes yn yr awyr yn barod i lanio – fel patrwm gosgeiddig, gydag 'air traffic control' yn penderfynu pwy sydd yn symud pryd. Ry'n ni wedi cael *pilots* arbennig ym Mheniel dros y blynyddoedd: yn gyfrifol am esgyn yn ystod y diwygiad yn 1904, yn dringo nes y 50au, yn cynnal yr uchder nes yr 80au, ac o'r 90au mlaen, y rhai oedd yn gyfrifol am y disgyniad yn ôl i'r rhedfa neu'r llain lanio.

Nawr ry'n ni'n dod at y job olaf, y 'ground crew', y rhai sy'n gyfrifol am ddod â'r awyren yn ddiogel 'nôl i'r gât. Mae gwaith Peniel, yn ôl trefn Duw, wedi dod i ben, a chyda diolch i Dduw am ymddiried ynom ni i gyflawni ei waith pwysig ef a diolchgarwch am bob un sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith dros y ganrif ddiwethaf. Rhoddwyd comisiwn iddynt i fugeilio'r praidd oedd wedi derbyn bendith y diwygiad, ac a ddaeth i ffydd ym 1904 – a chyflawnwyd hynny gydag anrhydedd. Mae'n amser pasio'r baton mlaen i'r sawl mae Duw yn eu galw yn

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Hanes yr Achos – Peniel, Foelgastell (1917–2025)*

*(parhad o dudalen 4)*




2025 a thu hwnt. Nid i gymdeithas sydd wedi profi diwygiad, ond i genhedlaeth sydd ar y cyfan ddim yn gwybod dim am ein Harglwydd a dyw'r capel ddim yn rhan o'u traddodiad o gwbwl. Mae angen math gwahanol iawn o eglwys, i gymdeithas wahanol, a phobl hollol wahanol i'w redeg. Rydym yn symud mlaen, mewn ffydd, yn y sicrwydd nad yw ein Harglwydd a'n Gwaredwr ni ddim yn cysgu: 'Wele, ni huna ac ni chwsg ceidwad Israel' – na cheidwad Foelgastell chwaith; nid yw Duw wedi gorffen gyda ni.

Mae'r achos yma yn dod i ben, ac yn ôl y drefn bydd arian o'r gwerthiant yn sicrhau tystiolaeth Gristnogol gan EBC yn yr ardal i'r dyfodol.

Mae Cymdeithas y Beibl wedi comisiynu a chyhoeddi arolwg o'r enw 'The Quiet Revival' sy'n nodi cynnydd annisgwyl mewn mynychu eglwysi Cristnogol, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc; mae'r Arglwydd yn symud yn ein plith ni heddiw.

Dy'n ni ddim eto yn gwybod pwy yw'r gweision newydd, ond mi fydd rhai newydd, ac mi fydd gwaith newydd. Dyma eiriau Gareth Davies wrth iddo orffen ei bregeth yn yr Heath yn 2006: 'We should pray that there are still many in Wales to be given to Christ, to be His and His alone – so that He shall see the travail of His soul and be satisfied. What God did in a measure in Foelgastell in those days, may He do yet again, and more, to His own glory.'

*Joanna Thomas-Wright*

# Y Tabernacl, Llanfaches

Mae gwahoddiad brwd a chynnes i chwi ymweld â chapel y Tabernacl, Llanfaches, cyn y bydd yr achos yn dod i ben bore Sul, 7 Rhagfyr.

Llanfaches oedd yr achos Ymneilltuol cyntaf yng Nghymru 'nôl yn 1639.

**Rhaglen ar gyfer dydd Sadwrn, 6 Rhagfyr**

**10.30**: Ymgynnull yn y festri am de neu goffi

**11.15**: Darlith ar William Wroth a hanes dechrau'r achos yn Llanfaches yn 1639

**1.00**: Bwffe yn y festri

**2.30**: Oedfa o ddiolchgarwch a choffâd

**3.30**: Y Fendith ac ymadael

Os ydych yn dymuno ymuno â ni, a fyddech mor garedig â rhoi gwybod i: Gwilym Wyn Roberts, serenagwill@btinternet.com 07 968 463 737 erbyn nos Sul, 23 Tachwedd, er mwyn i'r gwirfoddolwyr allu archebu'r bwffe ar eich cyfer.

Edrychwn ymlaen at eich gweld, os bydd yn gyfleus.

Awel iach yn Llanfaches – a gafwyd
I gofio am ernes
William Wroth, a'i fflam o wres
Y tân fu'n newid hanes.
*Rhys Nicholas*

**Pam mae Llanfaches mor bwysig yn hanesyddol, a phwy oedd y Parchedig William Wroth, BA?**

Amhosibl yw ymdrin â phwysigrwydd hanesyddol Llanfaches heb roi ystyriaeth deilwng i'r Parchedig William Wroth, BA.

Ganwyd William Wroth (1570–1642) ym Maindiff ym mhlwyf Llandeilo Pertholau (Llantilo Pertholey), ym Mynwy. Fe'i haddysgwyd yn New Inn Hall, cangen o Brifysgol Rhydychen. Treuliodd bymtheg mlynedd yn Rhydychen gan ennill gradd BA o Goleg Crist yn 1596/7 pan oedd yn 26 mlwydd oed. Naw mlynedd yn ddiweddarach enillodd radd MA o Goleg Iesu, yn 1605.

Gwyddom fod Wroth wedi cael cynnig 'bywoliaeth' Llanfihangel Rhosied yn 1613 ac arhosodd yno am 13 mlynedd nes iddo ymddiswyddo yn 1626.

Yn 1617, cynigiwyd swyddogaeth rheithor Llanfaches i Wroth gan y Goron ac felly roedd ganddo ofal am ddau le am naw mlynedd.

Yn ôl tystiolaeth Thomas Charles, roedd Wroth yn hoff iawn o chwarae'r delyn tu allan i'r eglwys ar ôl y gwasanaeth boreol. Yn dilyn ei dröedigaeth bu'n bregethwr grymus a dylanwadol. Daeth nifer cynyddol o bobl o bell ac agos i wrando arno nes bod yr eglwys yn orlawn. Rheidrwydd felly oedd iddo bregethu tu allan i'r eglwys.


Ar ôl cael ei ddiswyddo fel rheithor Llanfaches, fe sefydlodd achos annibynnol yn 1639.

Mae'n hanes pwysig a difyr.

*Gwilym Wyn*

## Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 6 – Ymson Hanna

Roedd llwch y llwybr y diwrnod hwnnw'n glynu wrth odre llaes fy ngwisg. Dilynai'r tawelwch wrth fy sodlau er nad oeddwn ar fy mhen fy hun. Cerddai Elcana gyda mi, a Peninna, y wraig arall, ar yr ochr arall. Roedd ganddi glwstwr o blant ac roedd eu clochdar yn rhoi cur pen imi wrth ymlwybro tua Seilo.

Doedd byw gyda hi ddim yn hawdd. Arferai weiddi f'enw a'i ddefnyddio fel cyllell i'm trywanu. Byddai'n ei ailadrodd, fel pe bai'n gwthio'r llafn yn ddyfnach bob tro. Feiddiwn i ddim yngan gair i'm hamddiffyn fy hun, ond gwaeddai pob cell yn fy nghorff yn ôl arni.

Bob blwyddyn, byddem yn teithio fel hyn i gyflwyno aberthau i Dduw. Roedd yn gas gen i'r arfer a byddwn yn teimlo fel cyfogi. Fwytais i ddim byd cyn dod, a rywsut roedd hynny'n gwneud imi deimlo'n well. Wn i ddim pam. Ro'n i'n unig yn fy hunllef ac roedd rheoli fy mwyta yn ffordd o reoli fy nheimladau.

Gwnaeth Elcana ei orau i fod yn gefnogol. Rhoddodd gyfran well o'r bwyd imi nag i Pennina, a dweud fy mod i'n fwy sbesial na hi. Roedd ein perthynas ni'n ddigon iddo, hyd yn oed heb blant. Ond roedd e'n iawn – roedd ganddo fe etifeddion. Ro'n innau'n ofni na fyddwn i fyth yn cael plant!

Yn nes ymlaen y diwrnod hwnnw, aeth pethau'n drech na mi a chodais oddi ar fy ngliniau. Drwy fy nagrau, sibrydais fy ngweddi daer: 'Fe wna i unrhyw beth. Os ca' i fab, fe'i rhoddaf yn ôl i Ti. Paid â'm gwrthod!'

Do'n i ddim wedi sylwi ar Eli wrth y drws, ond clywais ei gamau'n nesáu ataf a theimlo pwysau ei ddwrdio'n drwm arnaf. Heddiw, penderfynais ateb 'nôl i'm hamddiffyn fy hun. Weithiau fe all dewrder fod yn beth da, oherwydd fe gynhesodd Eli tuag ataf a'm cysuro wedyn â'i eiriau. Trois am adre yn llawnach fy meddwl.

Y dyddiau canlynol sylweddolais y dylwn fwyta i gadw'n iach. Cofiais yr hyn a ddywedodd Eli: 'Boed i Dduw roi iti beth wyt ti ei eisiau.' Pe bai hynny'n digwydd, roedd rhaid imi fod yn barod.

Roedd y cyffro newydd tu mewn imi'n gwneud gwahaniaeth. Ro'n i'n hapusach, a'r alaw newydd, obeithiol, yn fy symbylu. Sylwodd Elcana ar y newid; cawsom noson hudolus gyda'n gilydd. Yn union wedi hynny roeddwn i'n feichiog. Ro'n i methu credu, ond eto yn credu!

Cefais fab bychan hardd. Gwelais fod nod anweledig Duw ar ei dalcen. Pan ddaeth yr amser, es ag ef yn ôl i Seilo; roedd rhaid imi gadw at fy ngair. Wrth ei adael yno, roedd fy nghalon yn torri, ond eto roeddwn yn teimlo'n gyflawn a mod i wedi cyflawni f'addewid. Perthynai'r plentyn annwyl hwn i mi ac i Dduw, a dyna greu dolen rhyngom. Clywais alaw newydd, a chenais nerth fy mhen ac i'r entrychion:

> Y mae fy nghalon yn falch. Gallaf innau nawr chwerthin a chanu. Does neb fel fy Nuw i a'n Duw ni. 'Sdim pwynt brolio ac ymchwyddo, achos mae Duw yn gwybod popeth. Bydd y rhai sy'n baglu yn cael nerth i godi. Bydd y rhai sy'n llwgu yn cael eu llenwi. Mae Duw'n codi'r anghenus o'r domen sbwriel. Mae'n gofalu am y rhai sy'n aros yn ffyddlon.

Y Duw sy'n clywed yw'r daioni sy'n rhoi. Dyma fy ngweddi, dyma fy nghân, gyda diolch yn fy nghalon!

**Holi**

- Sut mae dyfalbarhad Hanna yn herio ein hagweddau ni tuag at 'ddisgwyl yn dawel am yr Arglwydd' (Salm 37:7)? A beth allwn ei ddysgu oddi wrthi am ffydd drwy gyfnodau o dawelwch – oddi mewn inni, neu ym mywyd ein heglwysi?
- Gwnaeth Eli gamgymeriad ynglŷn ag ymarweddiad Hanna. Sut ddylen ni ymateb pan fo eraill yn ein camddeall mewn materion ffydd? Ydy gwyleidd-dra a hunaniaeth Hanna'n arddangos rhywbeth gwerthfawr inni?
- Mae 'Emyn Mawl Mair' (Luc 1: 46–55) yn adleisio gweddi Hanna (1 Samuel 2: 1–10). Pa neges sydd gan y ddwy weddi i'n hatgyfnerthu'n gymdeithasol ac yn Gristnogol?

**Gweddi**

Boed inni fod yn ddewr ac yn driw i Dduw. Pâr inni wybod pryd i aros yn dawel a phryd i godi ein lleisiau a gweithredu. Boed inni fod yn ddoeth wrth wynebu sefyllfaoedd sy'n peri anhawster inni a bod o gymorth i eraill mewn sefyllfaoedd sy'n anodd iddynt hwy. Pâr inni gofio am ddaioni Duw tuag atom a'i fod yn ein gwerthfawrogi a'n caru – pob un ohonom. Boed inni ddal ein gafael ar y diolchgarwch arbennig hwnnw sy'n ein symbylu i fod yn bobl galonogol, yn bobl braf i fod yn eu cwmni, yn bobl y ffydd. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

**Sul, 23 Tachwedd, am 7:30yh – Moliant y Maes**

Ar drothwy Ffair Aeaf flynyddol Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, bydd Nia Roberts yn cyflwyno gwledd o emynau o Lanelwedd. Cawn gyfle i fwynhau'r gorau o'r canu cynulleidfaol o wasanaeth Moliant y Maes yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 23 Tachwedd, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rosa Hunt

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 23 Tachwedd, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad Emyr Williams, Llanddarog

# Trugarha

Pan o'n i'n bump oed, y gosb i blant anufudd yn ein dosbarth oedd eistedd ar stôl dan ddesg yr athrawes, lle roedd ei choesau – lle tywyll, du, oedd yn codi arswyd arnom. Falle ei fod yn well na chansen, fel byddai fy nain wedi ei dioddef. Rhyw ugain mlynedd wedyn, 'cadair plant drwg' oedd y gosb, sef eistedd yn y gornel a chael eich gwahardd rhag ymuno gyda gweddill y dosbarth.

Bellach, yn ôl a ddeallaf, 'cadair dim hwyl' yw'r term, a dydych chi ddim yn labelu plant fel 'da' a 'drwg'. Dydych chi ddim chwaith yn cael deud eu bod yn 'anghywir' a gweiddi arnynt. Yn hytrach, 'Rhowch gynnig arni eto' yw'r anogaeth, a deud hynny'n glên.

Fel un oedd yn cael trafferth efo disgyblaeth pan o'n i'n gwneud ymarfer dysgu, mi fyddwn yn canfod y tueddiadau modern hyn yn dipyn o her. Beth ar y ddaear fyddai pobl heddiw yn ei wneud o'r *Rhodd Mam*? 'Dau fath o blant sydd yna – plant da a phlant drwg.'

Rydw i wedi bod yn meddwl am hyn, gan ddyfalu beth fydd pen draw'r rhyddfrydiaeth hon. Onid dysgu'r gwahaniaeth rhwng drwg a da yw un o wersi sylfaenol bywyd? Dwi'n credu fod pobl yn cytuno â hynny – y labelu sy'n peri'r drafferth. Unwaith y caiff plentyn y label 'plentyn drwg', mae peryg iddo fo neu hi dderbyn hynny am oes.

Dyma ystyried wedyn beth oedd Iesu yn ei ddysgu, a dyma un peth sy'n nodweddu ei weinidogaeth ar y ddaear. Estyn allan wnaeth ef at y rhai yr oedd y byd wedi eu labelu fel 'plant drwg'. Mae enghreifftiau fyrdd o hyn – stori Sacheus, y wraig wrth y ffynnon, y lleidr ar y groes ... Yr un egwyddor sydd yn y damhegion hefyd – maddeuant sydd yna i'r mab afradlon, daioni sy'n nodweddu'r Samariad. Dydi'r rhai 'drwg' byth y tu hwnt i gymod.

Mae ymarfer hyn yn ein bywydau o ddydd i ddydd yn dipyn mwy anodd. Un peth ydi darllen yr Efengylau, peth arall ydy cychwyn sgwrs efo'r gwrthodedig mewn cymdeithas, boed yn gardotyn ar y stryd neu'n rhywun yn ein cymdeithas sydd wedi bod yng ngharchar neu dan warth. Troi ymysg pobl hapus a llwyddiannus ydan ni eisiau ei wneud, a mynd 'y ffordd arall heibio'.

Nid dyna ffordd Crist. A rhaid cyfaddef y byddai'r byd yn lle llawer gwell tasen ni'n peidio bod mor awyddus i rannu pobl yn ddrwg a da.

Geiriau T H. Parry-Williams ddaw i'r cof:

> Na alw monom, Grist, yn ddrwg a da,
> Saint a phaganiaid, ffyddiog a di-ffydd,
> Yn dduwiol ac annuwiol, caeth a rhydd,
> Yn gyfiawn ac anghyfiawn. – Trugarha ...

*Angharad Tomos*

(Gyda diolch i Gristnogaeth 21)




Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Henaduriaeth Trefaldwyn Gweinidog

Mae Henaduriaeth Trefaldwyn, yng nghanolbarth Cymru, yn edrych i benodi Cenhadwr Bugeiliol i gefnogi datblygiad ysbrydol y blaenoriaid, yr aelodau a chymuned ehangach yr eglwys; i gefnogi a datblygu ymestyn allan; i gefnogi dyletswyddau gweinidogaethol na all y blaenoriaid eu cyflawni ac i gefnogi gofal bugeiliol o fewn yr eglwys a'r gymuned ehangach. Bydd elfen arloesol i'r swydd.

**Oriau:** 35 awr yr wythnos
**Cytundeb:** 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf
**Cyflog:** Graddfa 31–35 (£32,150–£34,043), Graddfa Cyflog EBC
Fe fydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC
**Lleoliad:** Mae'r swydd hon yn gyfuniad o weithio o gartref ac ar draws yr Henaduriaeth; fodd bynnag, bydd gofyn i ddeiliad y swydd weithio o leoliadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dau eirda boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag:
e-bost – swyddfa.office@ebcpcw.cymru
Ffôn – 02920 627465

**Dyddiad cau: Dydd Gwener, 9fed Ionawr 2026, am 4yp**

# John Henry Newton (1725–1807)

Fe'i ganed yn Wapping, Llundain, ar 24 Gorffennaf 1725, yn fab i John a'i wraig, Elizabeth. Collodd ei fam, anghydffurfwraig gadarn ei ffydd, pan oedd yn chwech oed. Priododd ei dad eto, ac ar ôl bod mewn ysgol breswyl am ychydig flynyddoedd, aeth i fyw gyda'i dad a'i lysfam. Byddai'n mynd ar deithiau morol gyda'i dad, oedd yn gapten llong gyda'r llynges fasnach.

Yn 1744 cafodd ei wysio i ymuno â'r Llynges Frenhinol. Cafodd ei ddal yn ffoi a'i fflangellu. Wedyn, bu'n gweithio ar longau oedd yn gysylltiedig â'r fasnach gaethweision. Yn 1748, tra oedd ar fwrdd llong o'r enw *Greyhound* cododd storm ddychrynllyd. Cafodd dröedigaeth yn ystod y storm, ac yn ddiweddarach daeth yn grediniwr cyflawn.

Yn 1750, priododd Mart Catlett, ei gariad ers yn blentyn, ac erbyn 1755 roedd wedi torri pob cyswllt â'r fasnach gaethweision.

Yn 1764 cyhoeddodd *The Authentic Narrative*, hanes ei fywyd ar y môr a'r modd y cryfhaodd ei ffydd grefyddol. Daeth yn offeiriad gwladol gydag Eglwys Loegr a derbyniodd swydd fel curad yn eglwys yn Olney, Swydd Buckingham.

Yn 1767, sefydlodd y bardd William Cowper ei hun yn Olney, a dechreuodd yntau a Newton gyfeillgarwch a barhaodd hyd at farwolaeth Cowper. Ysgrifennodd Cowper a Newton gyda'i gilydd *Hymnau Olney* (1779), sy'n cynnwys 68 o emynau gan Cowper a 280 gan Newton. Ymhlith cyfraniadau mwyaf nodedig Newton yr oedd 'Amazing Grace', 'Glorious things of Thee are spoken', a 'How sweet the name of Jesus sounds'.

Gadawodd Newton Olney yn 1779 i wasanaethu yn eglwys St Mary Woolnorth yn Llundain. Wrth i'w ffydd dyfu ac aeddfedu dros y blynyddoedd, daeth yn fwy edifar am ei ran mewn caethwasiaeth a dechreuodd siarad yn ei herbyn. Yn 1787, ysgrifennodd *Thoughts Upon the African Slave Trade*, gyda'r gobaith o ddod â diwedd ar gaethwasiaeth.

Llwyddodd i berswadio'r Aelod Seneddol William Wilberforce, a oedd ei hunan wedi profi tröedigaeth grefyddol ddofn, i barhau i geisio dileu caethwasiaeth yn y Senedd yn hytrach na dilyn bywyd fel clerigwr.

Trwy ddyfalbarhad ac ymdrech Wilberforce, llwyddwyd i basio mesur drwy'r Senedd yn 1807 i ddiddymu'r fasnach gaethwasiaeth yn yr Ymerodraeth Brydeinig am byth.

Parhaodd Newton i bregethu hyd at ei farwolaeth, er ei fod yn ddall ym mlynyddoedd olaf ei fywyd. Ar 21 Rhagfyr 1807, bu farw yn 82 oed a'i gladdu yn St Mary Woolnorth, gyda'i wraig a fu farw yn 1790. Gan fod angen ymestyn rheilffordd danddaearol Llundain, bu'n rhaid symud gweddillion y gŵr a'r wraig i gornel o fynwent Eglwys Sant Pedr a Paul, Olney, yn 1893.

Yn Adran yr Emynau Saesneg yn *Caneuon Ffydd* mae 'Amazing Grace', emyn enwocaf John Newton. Mae hefyd emyn o'i eiddo yn yr Adran Gymraeg ('How sweet the name of Jesus sounds') sydd wedi'i gyfieithu i'r iaith honno gan David Charles, y pregethwr a'r emynydd o Gaerfyrddin.

Dywed *Cydymaith i Ganeuon Ffydd* am yr emyn hwn: 'Byddai Newton yn aml yn cymryd enw Duw yn ofer cyn ei dröedigaeth, ac mae'r emyn hwn yn adlewyrchu'r newid agwedd a meddwl at Grist wedi iddo ddod yn Gristion. Mae'r emyn yn seiliedig ar eiriau o Ganiad Solomon: 1:3 "ennaint tywalltedig yw dy enw".'



Dyfynnwn yr emyn yn llawn i gofio am ŵr arbennig iawn a aned dair canrif yn ôl i'r flwyddyn hon:

> Mor beraidd i'r credadun gwan
> yw hyfryd enw Crist:
> mae'n llaesu'i boen, yn gwella'i glwy',
> yn lladd ei ofnau trist.
>
> I'r ysbryd clwyfus rhydd iachâd,
> hedd i'r drallodus fron;
> mae'n fanna i'r newynog ddyn,
> i'r blin, gorffwysfa lon.
>
> Hoff enw! fy ymguddfa mwy,
> fy nghraig a'm tarian yw;
> trysorfa ddiball yw o ras
> i mi y gwaela'n fyw.
>
> Iesu, fy Mhroffwyd i a'm Pen,
> f'Offeiriad mawr a'm Brawd,
> fy mywyd i, fy ffordd, fy nod,
> derbyn fy moliant tlawd.

(Gyda diolch i Bapur Elim, Heol Awst a'r Priordy, gofalaeth Bancyfelin a Chaerfyrddin)

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu Cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau Swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
Neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau Swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru